Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETH PLANT A PHOBL IFANC:

# Cadw Teuluoedd Ynghyd

**Cefnogaeth ymddygiad i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.**

**Drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, byddwn ni'n ariannu gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd.**




**"Alla i ddim ymdopi... dwi angen hyn er mwyn gallu ymdopi."**

**"Dwi ddim yn gwybod ble alla i fynd am help."**

## BETH SY'N BWYSIG I BLANT A PHOBL IFANC?

Hoffai plant a phobl ifanc weld gwasanaethau cydgysylltiedig ble gallan nhw gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt, ar yr adeg gywir. Bydd hyn yn eu galluogi i feithrin yr hyder a'r gwytnwch sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen a datblygu'n oedolion iach.



## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Gweithredu cynllun y Gronfa Plant a Phobl Ifanc gan sicrhau dull rhanbarthol o gefnogi plant a phobl ifanc.
- Gwella gwasanaethau sy'n cofleidio teuluoedd i'w cadw gyda'i gilydd ac atal pethau rhag gwaethygu.
- Datblygu adnoddau cymunedol a chefnogaeth i atal plant rhag gorfod derbyn gofal.

## DYWEDODD POBL

**Mae seibr-fwlio yn broblem fawr, mae'n rhywbeth anodd dianc oddi wrtho ar y cyfryngau cymdeithasol."**

**Efallai y bydden ni'n gwneud pethau er mwyn gallu ffitio i mewn, mae'n cael ei alw'n 'peer pressure."**

## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Teuluoedd yn cael eu cefnogi'n well i aros gyda'i gilydd a chael y sgiliau i dyfu a datblygu, fel y gall plant fyw bywydau hapus ac iach.